CYDBWYLLGOR CRAFFU

DYDD MERCHER, 13 MEDI 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Gavin Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Mackie, Owen, Parkhill, Patel, Robson, Stubbs, Wong a/ac Wood |

5 : CADEIRYDD

Enwebwyd y Cynghorydd Nigel Howells i fod yn Gadeirydd gan y Cynghorydd Patel gyda'r Cynghorydd Gavin Hill-John yn ei eilio..

Ymgymerodd y Cynghorydd Howells â swydd y Cadeirydd.

6 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P Hill-John a Lay.

7 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd buddiannau gan y canlynol:

Y Cynghorydd Stubbs – Budd personol fel un o gyfarwyddwyr anweithredol Bws Caerdydd.
Y Cynghorydd Robson – Budd personol fel un o gyfarwyddwyr anweithredol Bws Caerdydd ac mae'r sawl dan sylw yn hen ffrind i'r teulu..
Y Cynghorydd G Hill-John – Budd personol fel un o gyfarwyddwyr anweithredol Bws Caerdydd.
Y Cynghorydd Patel – Budd personol a rhagfarnus – cyn-Aelod Cabinet sy'n ymwneud â'r penderfyniad. Gadawodd y Cynghorydd Patel y cyfarfod.

8 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

9 : ARIANNU'R GYFNEWIDFA FYSUS NEWYDD – YSTYRIED PENDERFYNIAD Y CABINET A ALWYD I MEWN 17/11; ADRODDIAD CYFARWYDDWR DATBLYGU ECONOMAIDD

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Neil McEvoy; y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu; Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd; a Geoff Shimell, y Gwasanaethau Cyfreithiol – Eiddo a Datblygu.

Gofynnodd y Cadeirydd am gymeradwyaeth y pwyllgor i ystyried y broses galw i mewn yn y cyfarfod hwn yn hytrach na chyfeirio'r pwnc i'w ystyried gan y cyngor llawn a chafwyd cytundeb y pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Neil McEvoy egluro'r rhesymau dros alw i mewn ar gyfer y penderfyniad.

Nododd y Cynghorydd McEvoy mai ei farn ef oedd bod angen craffu ar y penderfyniad gan fod cryn wrthwynebiad iddo gan y cyhoedd. Nododd fod teimladau cryf gan bobl oherwydd bod y safle'n borth i brifddinas Cymru. Yn ei dyb ef, roedd angen i'r cyngor llawn drafod y penderfyniad.

Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad bod y pwyllgor yn parhau i ystyried y broses galw i mewn yn hytrach na chyfeirio'r mater i'r cyngor llawn. Cytunodd y pwyllgor.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Cadeirydd fod y papurau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig gyfrinachol yn atodiadau 2, 3, 4, 5 a 6. Mae angen i'r pwyllgor ystyried yr atodiadau hyn mewn sesiwn gaeëdig yn unol â pharagraff 13 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Yn unol â hyn, cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd rhag y cyfarfod ar yr adeg honno.

Cymeradwywyd y penderfyniad ac felly gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael yr ystafell bwyllgor.

Ar ôl y sesiwn gaeëdig, nododd y Cadeirydd y byddai'n ailagor y cyfarfod i'r cyhoedd fel y gallai'r pwyllgor glywed gan dystion allanol oedd wedi mynegi diddordeb mewn gwneud datganiad ar y cynnig i'r pwyllgor. Gofynnodd y Cadeirydd i Dr Max Wallis gyflwyno ei ddatganiad i'r pwyllgor.

Darllenodd Dr Wallis y datganiad canlynol:

*Mae'n dda gennyf weld bod y Cabinet newydd yn awyddus i greu cyfnewidfa drafnidiaeth newydd sydd:*

- *wrth wraidd Metro Caerdydd gyda gorsaf fysus o'r radd flaenaf*
- *yn gyfnewidfa drafnidiaeth fodern sy'n addas ar gyfer ein prifddinas.*

*Roedd ofn arnom y byddai'r orsaf fysus yn ail flaenoriaeth i wasanaethu'r swyddfeydd newydd a mynd â thraffig yn ôl ac ymlaen i ganolfan newydd y BBC ac adeiladau swyddfeydd newydd.*

*Byddai tagfeydd, oedi a llygredd aer ar Heol y Porth, Stryd Wood ac i ran isaf Heol Eglwys Fair yn parhau'n broblem.*

*Yn y gorffennol roedd y Metro yn opsiwn ychwanegol, ond nawr gallwn ni weld metro-tramiau a/neu fysus Cludiant Cyflym yn cael eu hintegreiddio i'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth.*

***Cyfle Newydd** – Bwriedir cael gwared ar faes parcio Network Rail ar ochr ddeheuol yr orsaf a rhoi un newydd yn ei le.*
*Mae'n galluogi llwybr y metro-tram ar hyd Heol Saunders.*

*Mae'n galluogi bysus i ddefnyddio Heol Saunders, nid yn unig ar ddiwrnodau gemau a digwyddiadau yn y stadiwm ond pob diwrnod.*

***Y broblem gyda maes parcio'r BBC***

*Ymrwymiad i greu 217 lle i'r BBC yn ogystal â'r 83 sydd o dan ei adeilad newydd. --- Ystyriwyd y byddai'r ceir yn cyrraedd ac yn gadael y maes parcio yn rhwystro'r defnydd o fysus.*

- *Ceir gwared ar y broblem os caiff y lleoedd hynny eu symud i ymuno â'r lleoedd Network Rail i'r de o'r orsaf drenau.*
- *Rhoddwyd gwybod am fanteision sylweddol a) costau adeiladu b) lle â gwerth masnachol uchel*

*A.16 – Mae llawr gwaelod yr orsaf fysus yn cyfyngu ar nifer y colofnau y gellir eu defnyddio wrth ei hadeiladu. Mae hyn yn cynyddu'n sylweddol y gost am greu pob lle parcio.*

*Y bwriad gwreiddiol oedd creu maes parcio tanddaearol, o dan yr orsaf fysus. Newidiwyd hyn heb sylweddoli'r gost llawer uwch o greu lleoedd parcio uwchben ardal y bysus uchel. Hefyd mae'n llenwi lle â gwerth masnachol uchel gyda maes parcio sydd â gwerth isel.*

*Mae angen ymdrin â'r* ***broblem gyda llygredd uchel*** *mewn ardal fysus sy'n hollol gaeëdig Rhagwelir y bydd $NO_2$ sawl gwaith yn uwch na'r terfyn cyfreithiol ar gyfer $NO_2$ yn yr awyr agored, sawl gwaith yn uwch na'r lefel yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Heol y Porth/rhan isaf Heol Eglwys Fair.. Cyflwyno bysus trydan newydd oedd un ffordd o ddatrys hyn, ond nid hyd yn oed Bws Caerdydd sy'n bwriadu buddsoddi mewn bysus dim llygredd/llygredd isel.*

*Mae angen mynediad da i gerddwyr ar gyfer gorsaf fysus o'r radd flaenaf. Mae angen mynediad da i feicwyr ar gyfer y ganolfan feicio a'r orsaf drenau. Heol Saunders yw'r prif lwybr i Lôn y Felin, y Llyfrgell Ganolog/Yr Aes a John Lewis. Hefyd i safleoedd bysus yn Heol Eglwys Fair. Efallai parheir i ddefnyddio Canal Street a Custom House Street. Dim cynllunio ar gyfer troedffyrdd/arwyddion o safon i greu cyswllt â'r orsaf newydd. Dim gwaith i adnewyddu'r cyfleusterau annigonol i deithwyr, yr arosfannau, y seddi a'r byrddau gwybodaeth electronig. Ni ddyrannwyd arian am hyn.*

*Metro-tramiau O ran tramiau stryd, y llwybr gwreiddiol a ddewiswyd oedd llwybr Heol y Eglwys Fair/Stryd Wood, wedi'i osod i mewn i ardal brysur â sawl rhwystr, gan ychwanegu llinellau tram i gerddwyr eu cymryd i ystyriaeth wrth groesi'r stryd. Byddai'r llwybr ar hyd Heol Saunders ar gyfer metro-tramiau'n mynd yn rhwydd i'r Sgwâr Canolog i wraidd y gyfnewidfa. Gellir newid y safle tacsis yn orsaf dramiau.*

*Ni chynlluniwyd ar gyfer bysus cludiant cyflym metro. I ble byddent yn mynd? Efallai bydd rhaid iddynt naill ai ddefnyddio safleoedd yn Custom House Street a Canal Wharf neu gael mynediad cyflym ar hyd Heol Saunders i'r orsaf fysus? Yr un peth gyda choetsis rhanbarthol hefyd, fel y T9 a'r gwasanaeth o Aberystwyth sy'n cyrraedd y ddinas trwy Fae Caerdydd.*

*Ymrwymiad i 217 o leoedd parcio anweithredol i'r BBC. A yw'n anochel i'r gyfnewidfa? Yn wreiddiol bwriedid creu maes parcio tanddaearol, lle â gwerth isel. Mae gan Rightacres yr ymrwymiad hwn. Mae Rightacres hefyd wedi cytuno i greu lleoedd parcio newydd yn lle maes parcio Network Rail i'r de o'r orsaf. Bydd hyn yn*

*broblem o ran amseru os bwriedir defnyddio safle bragdy Brains. Serch hynny, mae Rightacres yn ystyried symud y lleoedd parcio i'r BBC yno hefyd. Bydd yn fanteisiol iawn o ran traffig a llygredd aer yng nghanol y ddinas i'w symud yno. Bydd hefyd yn fanteisiol o ran clirio Heol Saunders at ddefnydd bysus a cherddwyr (gyda metro-tramiau'n bosib hefyd).*

*I GLOI: Gofynnir i chi argymell y dylid ailystyried y cynlluniau'n ehangach, defnyddio Heol Saunder ar gyfer mynediad arferol i fysus, cefnogi Rightacres i symud maes parcio'r BBC a chwtogi'r gost anferthol o £15 miliwn am ddim mwy na chragen gorsaf fysus.*

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan yr aelodau am ddatganiad Dr Wallis ond ni chafwyd dim.

10 : YSTYRIED DATGANIADAU YSGRIFENEDIG

Nid oedd unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig wedi cael eu derbyn.

11 : CRYNHOI

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Cadeirydd fod y papurau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig gyfrinachol yn atodiadau 2, 3, 4, 5 a 6. Mae angen i'r pwyllgor ystyried yr atodiadau hyn mewn sesiwn gaeedig yn unol â pharagraff 13 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Yn unol â hyn, cynigiodd y Cadeirydd y dylai'r pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd rhag y cyfarfod ar yr adeg honno.

Cymeradwywyd y penderfyniad ac felly gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael yr ystafell bwyllgor.

Yna agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd i aelodau'r cyhoedd i drafod y Ffordd Ymlaen.

Y Ffordd Ymlaen – Ceisiodd y Cadeirydd farn y pwyllgor o ran a ddylid cyfeirio'r mater at y Cabinet neu beidio. O ystyried barn yr aelodau, gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad nad oedd y pwyllgor am gyfeirio'r mater at y Cabinet. Cytunodd yr aelodau â hyn a nodwyd eu dymuniad i'r sylwadau canlynol gael eu cyfleu i'r Cabinet.

Roedd yr aelodau'n fodlon bod ymdrechion yn cael eu gwneud ar y cyd i sicrhau'r defnydd o swyddfeydd yn adeilad y gyfnewidfa a'r gobaith oedd y byddai'r rhain yn dwyn ffrwyth. Fodd bynnag, roedd yr aelodau'n gefnogol o ddulliau lle mae'r safle hwn yn destun grymoedd y farchnad hefyd, yn amodol ar gais cynllunio ychwanegol os bydd angen.

Gofynnodd yr aelodau i'r Cadeirydd ailbwysleisio'r pwyntiau a wnaed yn llythyr blaenorol y pwyllgor, dyddiedig 19 Gorffennaf 2017, ynglŷn â sicrhau bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy'n cael eu cynnal er mwyn sicrhau modelu ariannol cadarn a bod cyngor cyfreithiol yn cael ei ystyried a gofynnodd yr aelodau iddynt gael gwybod am y cynnydd diweddaraf yn gyson o ran y cynnig i Lywodraeth Cymru am gymorth i gyflawni gwaith technegol a gwelliannau i'r priffyrdd.

Roedd yr aelodau'n rhannu'r dyhead i weld cyfnewidfa drafnidiaeth fysus o safon ar waith cyn gynted â phosibl ac roeddent yn edrych ymlaen at weld cynnydd yn hyn o beth.